



Cronfa Amachyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas

Glastir



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Bwletin Coetir Glastir

Rhagfyr 18, 2015



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno Coetir Glastir. Mae'r timau bellach ar waith a byddant yn cysylltu â rhanddeiliaid i gyflwyno Rhaglen Coetiroedd Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru

Kay Davies sy'n arwain tîm Glastir Llywodraeth Cymru. Mae'r staff ar gyfer ei thîm Coetir Glastir bellach wedi'u penodi ac yn cynnwys Shirley Thomas, Rhys Owen a Katie Hayhurst sy'n gyfrifol am gyflwyno a Richard Griffiths sy'n darparu cyngor technegol Llywodraeth Cymru.

Mae Bill MacDonald yn y Gangen Polisi Coedwigaeth yn yr Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth yn gyfrifol am bolisi cyffredinol a dyluniad y cynlluniau coetir o fewn Glastir, ac am gynlluniau coetiroedd a choed eraill yn yr RCRDP. Mae gan Bill gyfrifoldeb o fewn Llywodraeth Cymru hefyd am gyngor polisi ar arfer coedwigaeth, safonau rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy, gan gynnwys Safon Coedwigaeth y DU a Chynllun Sicrhau Coetiroedd y DU, a'r Cod Carbon ar gyfer Coetiroedd.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi penodi Martyn Evans fel Uwch Ymgynghorydd Coetir Glastir (Arweinydd Tîm). Mae tîm Martyn yn cynnwys Evelyn Over ac Eleanor Goupillon. Mae Tîm Coetir Glastir CNC yn gyfrifol am ddarparu cyngor arbenigol a thechnegol am goedwigaeth i gyflwyno rhaglen Coetir Glastir Llywodraeth Cymru, a sicrhau bod cyfrifoldebau rheoleiddio CNC yn cael eu cyflawni'n briodol o fewn cynlluniau Coetir Glastir.

Diweddariad am Greu Coetir Glastir

Derbyniwyd 90 o Ddatganiadau o Ddiddordeb a dewiswyd 84 o gwsmeriaid i gyflwyno Cynllun Creu Coetir Glastir. Derbyniwyd 51 o gynlluniau ar gyfer 161ha o blannu ac o'r rhain cafodd 47 eu cyfeirio at Gyfoeth Naturiol Cymru i'w dilysu.

Cymeradwywyd 29 o gynlluniau a'u dychwelyd at Lywodraeth Cymru gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac mae contractau cyntaf bellach yn cael eu cynnig drwy gyfrwng RPW Ar-lein.



Cronfa Amachyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas

Glastir



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Cynllun Creu Coetir Glastir - Hawliadau am Ffioedd

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ffurflenni hawlio i gwsmeriaid ar ôl cadarnhau cynllun cymeradwy. Mae hawliadau a dderbyniwyd yn awr yn cael eu prosesu a bydd hawliadau cymwys yn cael eu talu erbyn diwedd mis Rhagfyr 2015.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn 48 o Gynlluniau Creu Coetir Glastir i'w dilysu gan Lywodraeth Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgwyl derbyn mwy o Gynlluniau Creu Coetir Glastir gan Lywodraeth Cymru maes o law.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru mewn trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod holl Gynlluniau Creu Coetir Glastir yn cael eu dilysu cyn gynted ag y bo modd. Mae dros hanner wedi cael eu dilysu, gyda'r mwyafrif i fod i gael eu dilysu erbyn diwedd y flwyddyn

Diweddariad am Adfer Coetir Glastir

Derbyniwyd 42 o Ddatganiadau o Ddiddordeb o dan ffenestr gyntaf Creu Coetir Glastir. Dewiswyd 37 o gwsmeriaid i gyflwyno Cynllun Rheoli Coedwigoedd. Derbyniwyd 27 o Gynlluniau Rheoli Coedwigoedd ar gyfer cyfanswm o 257.5ha o ailstocio. Cyhoeddwyd 24 o gontractau a chafodd 19 eu lofnodi a'u dychwelyd.

Derbyniwyd 25 o Ddatganiadau o Ddiddordeb o dan ail ffenestr Creu Coetir Glastir. Dewiswyd 22 o gwsmeriaid ac fe'u gwahoddwyd i gyflwyno Cynllun Rheoli Coedwigoedd erbyn 8 Ionawr, 2016 ar gyfer amcangyfrif o 139ha o ailstocio.

Diweddariad map Cyfleoedd Creu Coetir Glastir ar Lle

Mae gan borwr Lle gyswllt gwe wedi'i ddiweddarau:

<http://lle.gov.wales/apps/woodlandopportunities>.

Mae yna ddelweddau lloeren wedi'u hychwanegu ar y map cyfleoedd coetir hefyd. Mae angen i chi ddewis y "basemap" yng nghornel chwith uchaf y sgrin.

Mae problemau a gafwyd yn flaenorol gyda'r porwr yn stopio wrth arddangos ardaloedd sensitif wedi cael eu datrys drwy wahanu setiau data mawr i gyflymu amseroedd ymholi. Mae'r offer arwynebedd a llinell bellach yn dangos cyfrifiadau mewn metrig ac imperial. Ar ben hynny, mae pob un o'r setiau data sensitif yn dal metadata i ddisgrifio beth mae pob haen yn ei olygu, a sut y cafwyd y data.

Edrychwch ar y Map Lle cyn i chi ddechrau ar gynllun Creu Coetir Glastir i wneud yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau a'r materion sensitif sy'n ymwneud â phlannu o'r newydd.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cronfa Amathyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas

Glastir



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Barn ynghylch Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

Mae tîm Rheoliadau Coedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn 45 Barn ynghylch Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol i'w hystyried a hyd yn hyn wedi prosesu 40 o farnau ynghylch Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

Gallwch gyflwyno barn AEA ar unrhyw adeg, hyd yn oed os yw ffenestr Mynegi Diddordeb Creu Coetir Glastir ar gau. Ond nodwch fod yn rhaid i'r ymgeisydd fod yn bwriadu gwneud y gwaith plannu newydd o ddifrif yn ystod y pum mlynedd nesaf.

I gyflwyno e-bost ynghylch AEA ewch i forestregulations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth Archeolegol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn y rhan fwyaf o ymatebion yr Ymddiriedolaeth Archeolegol. Dylai cynllunwyr anfon ymatebion at Gyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted ag y cânt eu derbyn. Bydd hyn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i barhau â'r broses ddilysu.

Mae Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i fonitro'r berthynas rhwng gwahanol elfennau o gyngor ar gyfer coetiroedd yng nghyswllt archaeoleg, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd i archwilio sut y gellir darparu'r wybodaeth hon yn y ffordd fwyaf effeithlon yn y dyfodol.

Tystiolaeth ffotograffig

Mewn cynefinoedd â blaenoriaeth a nodwyd ar y map Cyfleoedd Coetir ar Lle, mae'n bwysig tynnu lluniau o ansawdd da sy'n gynrychioliadol o'r cynefin â blaenoriaeth. I gael rhagor o wybodaeth am y dystiolaeth ffotograffig sy'n angenrheidiol ar gyfer cynlluniau Creu Coetir Glastir, ewch i

Datganiad Rhanddeiliaid

Yn unol ag UKFS, rhaid bod â datganiad rhanddeiliaid yn Adran 6 o Gynllun Rheoli cynllun Creu Coetir Glastir. Dylai hyn gynnwys manylion am unrhyw gymdogion, defnyddwyr a chynghorau cymuned a allai ddefnyddio'r ardal blannu newydd. Os yw'r plannu newydd mewn lleoliad anghysbell, mae angen i chi ddweud pam nad oes rhanddeiliaid yn rhan o'r cynllun.

Tir wedi'i glustogi gyda glannau'r afonydd

Dilynwch Dabl 5.1 (yn UKFS) a phlannwch goed llydanddail brodorol yn ôl 1,600 o goed / Ha o fewn clustogfa benodedig y cwrs dŵr. Bydd plannu coed mewn clystyrau ac yn fwy afreolaidd o fewn



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cronfa Amachyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas

Glastir



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

clustogfa'r cwrs dŵr yn darparu cymysgedd o gynefinoedd cysgodol a lled gysgodol o fewn y parth gyda'r glannau. Ni ddylid plannu unrhyw goed o fewn 7m o amddiffyniad rhag llifogydd, ee arglawdd llifogydd.

Cod Carbon Coetir

Nid oes tâl i ymgeiswyr gofrestru prosiect plannu newydd. I gael mwy o wybodaeth, ewch i wefan y Cod Carbon Coetiroedd

<http://www.forestry.gov.uk/carboncode>

Mae cyngor ar gael oddi wrth swyddog prosiect y Cod Carbon Coetiroedd, Bruce Auclerlonie. Cysylltwch â Bruce drwy'r wefan uchod os byddwch angen rhagor o wybodaeth neu help gyda chofrestru.

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar opsiynau i gofrestru fel grŵp ar gyfer Cynlluniau Creu Coetir Glastir gyda phrosiect y Cod Carbon Coetiroedd. Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn gynnar yn 2016.

Os nad yw ymgeisydd yn dymuno cofrestru â'r Cod Carbon Coetiroedd, ni ddylid dewis y categori Coetir Brodorol - coetir Carbon (cyfeirnod Creu Coetir Glastir 802).

Canllawiau ychwanegol ar amrywiaeth rhywogaethau coed

Ystyriwch ddefnyddio ystod ehangach o rywogaethau a nodir yn y canllawiau sy'n fwy gwydn i newid yn yr hinsawdd.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government